

Rhestr o Ddogfennau Adnabod Dilys

- Noder bod yn rhaid i'r holl ddogfennau fod yn eich enw cyfredol.
- Rhaid i o leiaf un ddogfen ddangos eich dyddiad geni.
- Rhaid i o leiaf un ddogfen ddangos eich cyfeiriad cyfredol.

Grŵp 1: Prif ddogfennau adnabod	
Dogfen	Nodiadau
Pasbort.	Unrhyw basbort cyfredol a dilys. Gall pasbort y DU fod wedi dod i ben hyd at uchafswm o 6 mis.
e-Fisa.	Cyrchwyd drwy'r gwasanaeth 'View and Prove'. Dylai'r cod rhannu y gofynnwyd amdano gan yr ymgeisydd fod yn god rhannu 'statws mewnfudo'. Os nad oes gennych gyfrif UKVI i gael mynediad at eich eFisa, gallwch greu un ar-lein.
Trwydded breswyllo biometrig (BRP).	DU. Gellir defnyddio BRP sy'n dangos Caniatâd Amhenodol i Aros, Caniatâd Amhenodol i Ddod i mewn neu Dim Terfyn Amser am hyd at 18 mis ar ôl dyddiad dod i ben y BRP. Dylid annog deiliaid BRP i greu cyfrif a chael mynediad i'w eFisa.
Cerdyn Cofrestru Cais (ARC).	Cyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref. Rhaid ei wirio yn erbyn Gwasanaeth Gwirio Cyflogwyr y Swyddfa Gartref.
Cerdyn-llun trwydded yrru gyfredol - (llawn neu dros dro).	Trwydded yrru cerdyn-llun cyfredol a dilys a gyhoeddwyd gan y DU, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel. O 8 Mehefin 2015 ymlaen, ni fydd y papur cyfatebol i'r drwydded yrru cerdyn-llun yn ddilys ac ni fydd bellach yn cael ei gyhoeddi gan DVLA.
Tystysgrif geni - wedi'i chyhoeddi o fewn 12 mis i'r geni.	DU, Ynys Manaw, ac Ynysoedd y Sianel - gan gynnwys y rhai a gyhoeddwyd gan awdurdodau'r DU dramor, er enghraifft llysgenadaethau, Uchel Gomisiynau a Lluoedd EF. Rhaid bod yn dystysgrif geni wreiddiol. Mae copïau ardystiedig yn ddogfen grŵp 2a.
Tystysgrif mabwysiadu.	Y DU ac Ynysoedd y Sianel.

Grŵp 2a: Dogfennau llywodraeth y gellir ymddiried ynddynt	
Dogfen	Nodiadau
Trwydded yrru gyfredol cerdyn-llun - (llawn neu dros dro).	Cyfredol a dilys. Pob gwlad y tu allan i'r DU (ac eithrio Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel).
Trwydded yrru gyfredol (llawn neu dros dro) - fersiwn bapur (os rhoddwyd cyn mis Mawrth 2000).	Cyfredol a dilys. Y DU, Ynys Manaw, ac Ynysoedd y Sianel. Er mwyn i drwydded bapur fod yn ddilys, rhaid iddi gael ei chyhoeddi cyn Mawrth 2000 a rhaid i'r holl wybodaeth, gan gynnwys enw a chyfeiriad, fod yn gyfredol.
Tystysgrif geni - wedi'i chyhoeddi dros 12 mis ar ôl amser y geni.	Y DU, Ynys Manaw, ac Ynysoedd y Sianel.
Tystysgrif priodas/partneriaeth sifil.	Y DU ac Ynysoedd y Sianel.
Dogfen fewnfudo, fisa, neu drwydded waith.	Cyhoeddwyd gan wlad y tu allan i'r DU. Yn ddilys ar gyfer rolau lle mae'r ymgeisydd yn byw ac yn gweithio y tu allan i'r DU. Rhaid i fisa/trwydded fod yn berthnasol i'r wlad nad yw'n rhan o'r DU lle mae'r rôl wedi'i lleoli.
Cerdyn adnabod Lluoedd EF neu gerdyn cyn-filwr Lluoedd Arfog EF.	Y DU.
Trwydded arfau tanio.	Y DU, Ynys Manaw, ac Ynysoedd y Sianel.

Grŵp 2b: Dogfennau hanes ariannol a chymdeithasol		
Dogfennau	Nodiadau	Dyddiad cyhoeddi a dilysrwydd
Datganiad morgais.	Y DU.	Cyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.
Datganiad banc neu gymdeithas adeiladu.	Y DU ac Ynysoedd y Sianel. Mae allbrint o ddatganiad banc sydd wedi'i gymeradwyo â stamp ac wedi'i lofnodi gan y banc yn dderbyniol os na allwch gael datganiadau banc copi caled wedi'u postio atoch.	Cyhoeddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf.
Datganiad banc neu gymdeithas adeiladu.	Gwledydd y tu allan i'r DU.	Cyhoeddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf - rhaid i'r gangen fod yn y wlad lle mae'r ymgeisydd yn byw ac yn gweithio.
Llythyr cadarnhau agor cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu.	Y DU.	Cyhoeddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf.
Datganiad cerdyn credyd.	Y DU.	Cyhoeddwyd yn ystod y 3 mis diwethaf.
Datganiad ariannol, er enghraifft pensiwn neu waddol.	Y DU.	Cyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.
Datganiad P45 neu P60.	Y DU ac Ynysoedd y Sianel. Gwreiddiol yn unig. Ni all fod yn ddogfen ar-lein nac wedi'i hargraffu o gyfrif ar-lein/PDF.	Cyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf
Datganiad Treth y Cyngor.	Y DU ac Ynysoedd y Sianel.	Cyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.
Llythyr nawdd gan ddarparwr cyflogaeth yn y DU yn y dyfodol.	Dilys ar gyfer ymgeiswyr sy'n byw y tu allan i'r DU ar adeg y cais yn unig.	Rhaid iddo fod yn ddilys o hyd.
Bil cyfleustodau.	Y DU - nid bil ffôn symudol. Ni all fod yn ddogfen ar-lein nac wedi'i hargraffu o gyfrif ar-lein/PDF.	Cyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.

Datganiad budd-dal, er enghraifft Budd-dal Plant, Pensiwn y Wladwriaeth.	Y DU.	Cyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.
Llywodraeth ganolog neu lywodraeth leol, asiantaeth y llywodraeth, neu ddogfen gyngor lleol sy'n rhoi hawl, er enghraifft gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Gwasanaeth Cyflogaeth, Awdurdod Lleol.	Y DU ac Ynysoedd y Sianel – llythyr yn cadarnhau hawl i fudd-daliadau. Er enghraifft: Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP), prydau ysgol am ddim, credyd cynhwysol, cymorth lloches ac ati.	Cyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.
Llythyrau hunanasesu CThEF neu lythyr galw am dreth.	Y DU.	Cyhoeddwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.
Cerdyn Yswiriant lechyd Ewropeaidd (EHIC) neu Gerdyn Yswiriant lechyd Byd-eang (GHIC).	Y DU.	Rhaid iddo fod yn ddilys o hyd
Cerdyn adnabod Cenedlaethol yr AEE.		Rhaid iddo fod yn ddilys o hyd.
Cerdyn Pasbort Iwerddon.	Ni ellir ei ddefnyddio gyda phasbort Gwyddelig.	Rhaid iddo fod yn ddilys o hyd.
Cardiau sy'n cario'r logo achrediad PASS.	Y DU, Ynys Manaw, ac Ynysoedd y Sianel. Mae cardiau PASS digidol yn dderbyniol pan fyddant wedi'u cyhoeddi gan ddarparwr PASS digidol cymeradwy ac mae'r cod QR wedi'i ddefnyddio i gadarnhau manylion.	Rhaid iddo fod yn ddilys o hyd.
Llythyr gan bennaeth ysgol, pennaeth coleg, darparwr prentisiaethau.	DU - ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed mewn addysg amser llawn neu ar brentisiaeth - dim ond mewn amgylchiadau eithriadol os na ellir darparu dogfennau eraill.	Cyhoeddwyd yn ystod y mis diwethaf.